

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
DYDDIAD	22ain Hydref 2019
TEITL	Adroddiad yr Harbwrfeistr
AWDUR	A.G. Jones Harbwrfeistr Abermaw

1. Materion Mordwyo

- 1.1. Yn gyffredinol, mae cwrs y sianel fordwyo wrth ddynesu at Harbwr Abermaw wedi aros yn eithaf cyson dros yr haf ac o'r herwydd ni fu angen symud y marciau mordwyo.
- 1.2 Mae'r Gwasanaeth yn archwilio'r sianel fordwyo yn rheolaidd ar lanw isel i geisio sicrhau bod y cymhorthyddion mordwyo yn y lleoliadau mwyaf addas. Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth yn monitro safleoedd Bwi Bar Rhif 1, marc llaw starbord a Marc Llaw Port Rhif 2 ym mynedfa'r sianel, oherwydd symudiad y bar tywod yn yr ardal honno.
- 1.4 Pob blwyddyn, mae Tŷ'r Drindod, yr Awdurdod Goleudai Cyffredin, yn cynnal archwiliad annibynnol ar bresenoldeb a swyddogaeth y cymhorthyddion mordwyo a gofnodwyd yn harbyrau Gwynedd. Eleni, bydd yr archwiliad yma'n digwydd yn Harbwr Abermaw rhwng 14eg - 16eg o Hydref 2019. Maes o law bydd y Gwasanaeth yn derbyn adroddiad ar yr hyn a welwyd.
- 1.4.1 Ar hyn o bryd mae tri Hysbysiad Lleol i Forwyr mewn grym yn Harbwr Abermaw.
- 1.4.2 Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 3/2019. Nid yw'r Llusern wedi ei goleuo ar y cymhorthydd llaw port i Bwi Mordwyo Rhif 2 yn safle 52° 42.698' N, 004° 04.187' W. Mae golau newydd wedi ei brynu a bydd yn cael ei osod cyn gynted â bo hynny'n ymarferol.
- 1.4.3 Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 5/2019. Mae'r Llusern ar y Marc Arbennig yn safle 52° 43.205'N 004°05.331'W wedi diffodd. Cyfrifoldeb Gwasanaethau Arbennig Dŵr Cymru yw'r bwi ac maent yn ymwybodol o'r diffyg ac yn gwneud trefniadau i osod golau newydd.
- 1.4.4 Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 6/2019. Nid yw'r cymhorthydd mordwyo starbord Bwi Rhif 3 sydd yn yr harbwr mewnol ar safle 52°43.004'N, 004°03.085'W, ddim ar ei safle priodol. Dychwelir y bwi i'w safle cyn gynted â phosib, pan fo'r contractwr angorfeydd ar gael.

2 Materion Gweithredol

- 2.1 Yn y gorffennol bu'n rhaid i'r Awdurdod Harbwr symud dau gwch o'r harbwr oherwydd eu cyflwr anniogel a'u bod yn anaddas i'r môr, a bydd y Gwasanaeth yn hwyluso symud trydydd cwch cyn bo hir sydd wedi ei angori ar draeth y Baddondy. Dymuna'r gwasanaeth atgoffa perchnogion cychod sydd â lle yn yr harbwr o'r angen i gynnal ymweliadau rheolaidd i wirio cyflwr eu cychod ac i gynnal eu diogelwch.
- 2.2 Yn unol â darpariaethau'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) ac i sicrhau arferion a gweithredoedd gwaith diogel, bydd y Gwasanaeth yn cynnal adolygiad o'r gweithrediadau pysgota a fferi yn ei harbyrau. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y cychod a ddefnyddir, ynghyd â'r tasgau a'r risgiau penodol sy'n gysylltiedig gyda'r gweithgareddau hynny yn amgylchedd yr harbwr.

- 2.3 **Angorfeydd yr Harbwr:** Dymuna'r gwasanaeth atgoffa perchnogion yr holl gychod sydd ag angorfeydd yn yr harbwr o'r angen i ddychwelyd y ffurflen berthnasol sy'n cadarnhau angorfa ynghyd â'r ffurflen archwilio angorfa i'r harbwrfeistr ar y cyfle cyntaf posib. Bydd hyn yn caniatáu i'r gwaith gweinyddol fwrw ymlaen. Mae'r Gwasanaeth yn parhau yn ymroddedig i symud unrhyw angorfa segur, unrhyw angorfa anaddas i'w diben neu unrhyw angorfa na thalwyd amdani.
- 2.4 **Cychod Gweini:** Hoffai'r Gwasanaeth hefyd atgoffa rhai sy'n dal angorfa o'r angen i gofrestru unrhyw gwch gweini a ddefnyddir gyda swyddfa'r harbwr. Yn ddelfrydol, dylai pob cwch gweini gael eu marcio a bod yn hawdd eu hadnabod efo'r cwch mae'n gweithredu fel cwch gweini iddo.

3 Cynnal a Chadw

- 3.1 Yn ogystal â chynnal y cymhorthion mordwyo, mae contractwr allanol wedi gwneud gwaith cynnal a chadw ar angorfeydd ymwelwyr yr harbwr ac mae'r harbwrfeistr wedi archwilio'r angorfeydd 'trot' sy'n eiddo i Gyngor Gwynedd.
- 3.2 Mae dwy ysgol harbwr newydd gyda ffenderau pren gwarchodol bellach wedi eu gosod ar wal yr harbwr er budd pobl sy'n dymuno byrddio neu adael cychod sydd wedi angori yno.
- 3.3 Bydd yr Harbwrfeistr yn cyflwyno'r rhaglen o waith cynnal a chadw sydd i'w wneud yn Harbwr Abermaw yn ystod y cyfnod rhwng Hydref 2018 a Chwefror 2019. Gofynnir am adborth gan aelodau'r Pwyllgor ynghylch unrhyw waith arall fydd angen ei ystyried a'i gynnwys yn y rhaglen waith.

4. Materion Eraill

- 4.1 **Arwyddion Diogelwch** Ar y cyd â'r RNLI, gosodwyd arwyddion diogelwch i rybuddio aelodau'r cyhoedd o'r peryglon cynhenid ar safleoedd o gwmpas ardal traeth Abermaw. Mae arwyddion diogelwch tebyg erbyn hyn wedi eu gosod mewn mannau strategol o amgylch yr harbwr.
- 4.2 **Lloc y Pysgotwyr.** Mae'r Gwasanaeth yn dal i fwriadu cynnal arolwg o'r safleoedd yn Lloc y Pysgotwyr. Yn dilyn cais gan y Gwasanaeth, mae defnyddwyr y lloc wedi dechrau ei dacluso a symud deunyddiau gwastraff o'r safle. Ar ôl yr arolwg bydd yn gwasanaeth yn atgyfnerthu marciau'r llinellau ar y lleiniau unigol yn y lloc.
- 4.3 **Parcio yn yr Harbwr.** Mae'r Gwasanaeth yn dal i weithio tuag at gael mannau parcio dynodedig ar Ffordd y Compownd i helpu Gweithwyr Masnachol ar y dŵr i ddal ati gyda'u gweithgareddau mewn amgylchedd harbwr prysur. Mae bolardiau traffig nawr wedi eu gosod yn eu lle yn y rhan o'r ffordd sy'n arwain at lloc y pysgotwyr i gyfyngu cerbydau heb awdurdod rhag parcio yn yr ardal. Yn anffodus, ers iddynt gael eu gosod mae dau folard wedi eu niweidio ac nid oes neb wedi derbyn cyfrifoldeb a bu'n rhaid i'r Gwasanaeth adrodd am y digwyddiadau i Heddlu Gogledd Cymru.
- 4.3.1 Hoffai'r Awdurdod Harbwr atgoffa'r defnyddwyr gwasanaeth am yr angen i ddefnyddio'r rhwystr ger mynedfa'r ffordd sy'n arwain at Lloc y Pysgotwyr yn effeithiol.

- 4.4 Dywed y Gwasanaeth y bydd yn parhau i geisio cymorth gan swyddogion gorfodaeth Cyngor Gwynedd pan a phryd fo angen, i hwyluso mynediad rhydd, dirwystr i'r lithrfa i ddefnyddwyr yr harbwr o ran y marciau ffordd ger adeilad yr 'SS Dora'.
- 4.5 **Pontŵn yr Harbwr** Nid yw perchnogaeth dybiedig a gweithrediad rheolaethol pontŵn yr harbwr gan Ymddiriedolaeth Cymunedol Abermaw eto wedi ei gadarnhau. Mae gwaith strwythurol wedi ei ymgymryd ar brif ran y pontŵn, a bydd gwaith yn cael ei wneud i fysedd y pontŵn cyn dechrau'r tymor y flwyddyn nesaf.
- 4.6 **Cadw cychod dros y Gaeaf.** Defnyddiodd perchnogion dau gwch y cyfleuster i storio cychod dros y gaeaf ar y maes parcio ger y Ganolfan Hamdden am y cyfnod rhwng 1 Hydref i'r 31 Mawrth y llynedd. Er yr ymateb siomedig, mae'r cyfleuster yma'n parhau yn opsiwn gyda chost os yw perchennog unrhyw gwch angen lle i storio dros y gaeaf.

5. **Digwyddiadau**

- 5.1 Cynhaliwyd y digwyddiadau a ganlyn yn Harbwr Abermaw yn 2019:-
- Ras y Tri Chopa
 - Gŵyl Chwaraeon Padlo
 - Gŵyl Farcud
 - Gŵyl Fwyd Abermaw
 - Ras Rafftio
 - Digwyddiad Motorcross
 - Digwyddiad Elusennol Badau Dŵr Personol
- Oherwydd tywydd gwael ni chynhaliwyd digwyddiad Hwrli Bwrli y Gymdeithas Nofio.
- 5.4 Hoffai'r Gwasanaeth atgoffa aelodau ei bod yn hanfodol fod Awdurdod yr Harbwr yn cael gwybod am unrhyw ddigwyddiad arfaethedig yn yr Harbwr a dylid gofyn am ganiatâd, cyn gynted ag y bo modd.